**LC1174**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymdrin â chwynion i'r awdurdodau lleol ynghylch y modd y maent yn arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (heblaw sylwadau sydd wedi'u cyflwyno o dan adrannau 24D a 26 o Ddeddf Plant 1989 ac Atodlen 7 iddi).

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn rheoliad 19(4), dylai'r croesgyfeiriad at reoliad 18(2) gyfeirio at reoliad 18(3). [Rheol Sefydlog 11.7 (v)].

Gall y mân wall drafftio yma gael ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae pwyntiau fformadu y byddai'n addas eu cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau wedi'u mynegi i'r cyfreithiwr a'u drafftiodd.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**22 Tachwedd 2005**